# Atebion a roddwyd i Aelodau ar 17 Medi 2008

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys


2 Cwestiynau i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth

5 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

7 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

8 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig

## Cwestiynau i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth

**Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y llwybr a gynigir ar gyfer ffordd osgoi Llandeilo? (WAQ52456)

**Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y sail a ddefnyddiwyd dros ddewis y llwybr a ffefrir? (WAQ52457)

**Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cynnydd yng nghyswllt ffordd osgoi Llandeilo? (WAQ52458)

**Y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth (Ieuan Wyn Jones):** Dewiswyd y llwybr wedi'i addasu a ffefrir a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2007 gan ei fod yn lleihau'r effaith ar Afon Tywi a'i gorlifdir. Ers cyhoeddi Strategaeth Drafnidiaeth Cymru, mae'r Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol yn cael ei baratoi. Bydd hyn yn gosod fy mlaenoriaethau am y rhaglen ar gyfer cefnffyrdd gan ystyried maniffesto Cymru'n Un.

**Irene James (Islwyn):** A wnaiff y Gweinidog ddarparu manylion Grantiau Cymorth Dewisol Rhanbarthol a ddyfarnwyd yn etholaeth Islwyn er Ebrill 2003, yn ogystal ag enwau a lleoliadau prosiectau sydd wedi cael y Grant hwn? (WAQ52464)

**Y Dirprwy Weinidog:** Mae'r wybodaeth hon yn atodedig.

Derbyniwyd 30 cynnig o Gymorth Rhanbarthol Dewisol gwerth £25,578,000 yn etholaeth Islwyn rhwng 1 Ebrill 2003 a 31 Awst 2008. Y manylion yw:

| Enw | Swm | Rhagolwg Gwariant Cyfalaf | Rhagolwg Cyflogaeth | | Lleoliad | Dyddiad Derbyn |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Newydd | Diogel | | |
| General Dynamics UK Ltd | 5,200,000 | 1,099,000 | 300 | 0 | Oakdale | 02-Mehefin-03 |
| Aztech Assemblies Ltd | 100,000 | 224,870 | 7 | 0 | Coed-duon | 16-Mehefin-03 |
| Omiga Glass Centre Ltd | 165,000 | 443,000 | 15 | 0 | Coed-duon | 30-Mehefin-03 |
| Anacomp Ltd | 65,000 | 69,300 | 9 | 0 | Crosskeys | 20-Mehefin-03 |
| TMS Greenwood Ltd | 35,000 | 105,000 | 12 | 0 | Pengam | 01-Medi-03 |
| G-Plas Ltd | 275,000 | 300,000 | 18 | 0 | Crymlyn | 06-Hydref-03 |
| Knight Plastics Ltd | 500,000 | 1,335,000 | 45 | 29 | Pengam | 03-Tachwedd-03 |
| Murus Manufacturing (Wales) Ltd | 150,000 | 416,000 | 23 | 0 | Oakdale | 16-Rhagfyr-03 |
| Seda (Uk) Ltd | 4,000,000 | 17,500,000 | 190 | 0 | Coed-duon | 30-Ebrill-04 |
| WRC – NSF Ltd | 80,000 | 500,000 | 8 | 5 | Oakdale | 29-Ionawr-04 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Rochester Midland Industries (UK) Ltd | 60,000 | 605,000 | 5 | 5 | Crosskeys | 15-Mehefin-04 |
| Abingdon Flooring Ltd | 200,000 | 635,000 | 19 | 0 | Trecelyn | 14-Gorff-04 |
| WF Manufacturing Ltd - Newco | 550,000 | 1,230,000 | 34 | 0 | Rhisga | 28-Medi-04 |
| Frontier Plastics Ltd & Frontier Therapeutics Ltd | 600,000 | 3,007,000 | 30 | 0 | Coed-duon | 12-Hydref-04 |
| Bon Bon Buddies Ltd | 700,000 | 500,000 | 32 | 0 | Crymlyn | 21-Medi-04 |
| Dragon Fabrications Ltd | 131,000 | 127,000 | 40 | 0 | Coed-duon | 01-Rhagfyr-04 |
| Senior UK Ltd | 2,150,000 | 4,476,000 | 83 | 100 | Crymlyn | 10-Mai-06 |
| Envirovac 2000 Ltd | 185,000 | 1,348,000 | 18 | 17 | Coed-duon | 04-Ionawr-05 |
| Gwent Timber Products Ltd a Lanes Garages (Ystrad Mynach) Ltd | 140,000 | 1,148,000 | 10 | 10 | Crymlyn | 28-Hydref-05 |
| Pensord Press Ltd | 300,000 | 1,873,000 | 22 | 0 | Coed-duon | 20-Mehefin-05 |
| British Airways Interior Engineering Ltd | 98,000 | 328,000 | 0 | 21 | Coed-duon | 16-Ionawr-06 |
| Equipdata Ltd | 120,000 | 566,000 | 4 | 8 | Coed-duon | 05-Mehefin-06 |
| General Dynamics UK Ltd | 5,000,000 | 8,028,000 | 340 | | Coed-duon | 08-Hydref-06 |
| Mollertech Ltd | 2,950,000 | 10,706,000 | 99 | 140 | Cwmfelinfach | 23-Tachwedd-06 |
| Systems Power Eng Ltd | 150,000 | 885,000 | 10 | 8 | Abercarn | 28-Ebrill-06 |
| Synergy Plastics Ltd | 175,000 | 622,000 | 13 | 21 | Crymlyn | 19-Mai-06 |
| Bar & Restaurant Foods Ltd | 600,000 | 1,952,000 | 20 | 46 | Cwmfelinfach | 06-Rhagfyr-06 |
| P14 Ltd | 250,000 | 750,000 | 0 | 34 | Cwmfelinfach | 14-Chwef-08 |
| Bon Bon Buddies Ltd | 225,000 | 807,000 | 25 | 0 | Crymlyn | 15-Hydref-07 |
| Relats UK Ltd | 424,000 | 1,063,000 | 17 | 23 | Rhisga | 05-Chwef-08 |

Efallai nad yw’r tabl yn adlewyrchu newidiadau i ffiniau etholaeth ar ôl dyddiad gwreiddiol y cynnig.

**Irene James (Islwyn):** A wnaiff y Gweinidog ddarparu manylion Grantiau Buddsoddi’r Cynulliad a ddyfarnwyd yn etholaeth Islwyn er Ebrill 2003, yn ogystal ag enwau a lleoliadau prosiectau sydd wedi cael y Grant hwn? (WAQ52465)

**Y Dirprwy Weinidog:** Mae'r wybodaeth hon yn atodedig.

Derbyniwyd 48 cynnig o Grantiau Buddsoddi'r Cynulliad gwerth £1,518,120 yn etholaeth Islwyn rhwng 1 Ebrill 2003 a 31 Awst 2008. Y manylion yw:

| Enw | Swm | Rhagolwg Gwariant Cyfalaf | Lleoliad | Dyddiad Derbyn |
|---|---|---|---|---|
| REL Eng Ltd | 50,000 | 230,900 | Rhisga | 16-Ebrill-03 |
| Dragon Saw Ltd | 17,000 | 38,250 | Coed-duon | 19-Mai-03 |
| W A Noakes T/A Billyboard Marketing | 14,500 | 30,930 | Pontllanfraith | 02-Mehefin-03 |
| Blackwood Electrical Testing & Inspection | 15,000 | 25,700 | Coed-duon | 26-Mehefin-03 |
| Springbok IT Solutions Ltd | 50,000 | 247,368 | Cwmfelinfach | 07-Gorff-03 |
| Controlwise Ltd | 8,500 | 15,800 | Pengam | 07-Gorff-03 |
| Gryson Airconditioning Equipment Ltd | 30,000 | 114,858 | Pontllanfraith | 09-Gorff-03 |
| L Jarrett T/A Quicksand | 10,000 | 35,000 | Crosskeys | 05-Awst-03 |
| Maplestone Landscape Collections Ltd | 40,000 | 195,500 | Abercarn | 26-Awst-03 |
| ATB Training & Consultancy Services Ltd | 31,000 | 135,500 | Coed-duon | 04-Medi-03 |
| Brian Jenkins Hosiery | 10,000 | 13,662 | Pontllanfraith | 11-Medi-03 |
| W A Noakes T/A Billyboard Marketing | 15,000 | 35,450 | Pontllanfraith | 20-Medi-03 |
| Drumlord Ltd | 35,000 | 90,120 | Abercarn | 29-Medi-03 |
| APC Vanco Ltd | 25,000 | 24,000 | Crymlyn | 10-Hydref-03 |
| Kite Packaging (De Cymru) Ltd | 50,000 | 14,100 | Pontllanfraith | 20-Hydref-03 |
| UPVC Distributors Ltd | 30,000 | 110,000 | Abercarn | 22-Tachwedd-03 |
| Celtic Electrical & Lighting Ltd | 38,000 | 101,000 | Crymlyn | 02-Ionawr-04 |
| Expressworks Ltd | 35,000 | 83,000 | Pontllanfraith | 12-Ionawr-04 |
| KCL E-Document Solutions Ltd | 35,000 | 107,644 | Pontllanfraith | 16-Chwef-04 |
| Mr & Mrs M Davis, SG Davis & B Davis T/A Lexon | 35,000 | 115,397 | Crymlyn | 04-Mawrth-04 |
| Morph Solutions Ltd | 16,000 | 34,000 | Trecelyn | 22-Mawrth-04 |
| H & V Fusion And | 20,000 | 206,000 | Trecelyn | 23-Mawrth-04 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Drilling Ltd | | | | |
| SBS Electrical (Cymru) Ltd | 25,000 | 36,200 | Coed-duon | 26-Ebrill-04 |
| Synergy Plastics Ltd | 50,000 | 191,000 | Crymlyn | 20-Mai-04 |
| Sheedy Scrap Metals (1976) Ltd | 50,000 | 228,000 | Cwmcarn | 21-Mehefin-04 |
| Sigma Manufacturing Ltd | 35,000 | 88,000 | Crosskeys | 06-Gorff-04 |
| Autocraft Eng Ltd | 50,000 | 112,000 | Coed-duon | 07-Gorff-04 |
| Celtic Electrical & Lighting Ltd | 40,000 | 125,000 | Crymlyn | 27-Medi-04 |
| Mojo Suspension Hoodoo Ltd | 20,000 | 64,610 | Rhisga | 19-Hydref-04 |
| Relats Uk Ltd | 50,000 | 280,000 | Rhisga | 30-Tachwedd-04 |
| Protein Products Ltd | 35,000 | 77,949 | Abercarn | 07-Rhagfyr-04 |
| Risca UPVC Ltd | 30,000 | 91,145 | Rhisga | 03-Mehefin-05 |
| Penyfan Processing & Recycling Ltd | 40,000 | 146,000 | Oakdale | 20-Mehefin-05 |
| H & V Fusion And Drilling Ltd | 40,000 | 108,000 | Gwent | 12-Hydref-05 |
| Zuzu Media Ltd | 25,500 | 15,500 | Cwmcarn | 18-Hydref-05 |
| SZ Gears Ltd | 18,120 | 41,120 | Rhisga | 22-Tachwedd-05 |
| Autocraft Eng Ltd | 50,000 | 125,000 | Coed-duon | 03-Ionawr-06 |
| Andrews & Andrews Ltd | 15,000 | 61,000 | Pengam | 21-Chwef-06 |
| Drumlord Ltd | 45,000 | 136,500 | Casnewydd | 08-Mehefin-06 |
| Penyfan Processing & Recycling Ltd | 20,000 | 110,000 | Coed-duon | 16-Mehefin-06 |
| R Davies-Williams & G Davies-Williams T/A Sign Rite | 20,000 | 83,224 | Coed-duon | 10-Hydref-06 |
| Glass Solutions (Cymru) Ltd | 50,000 | 124,250 | Coed-duon | 17-Tachwedd-06 |
| Uniclad Steels Ltd | 24,000 | 55,800 | Pontllanfraith | 09-Ionawr-07 |
| Controlwise Ltd | 49,000 | 105,000 | Coed-duon | 31-Ionawr-07 |
| Tempestivo Ltd | 25,000 | 54,950 | Pengam | 29-Mai-07 |
| Stonerite Ltd | 45,500 | 91,000 | Oakdale | 04-Gorff-07 |
| Advanced Network Solutions | 6,000 | 18,500 | Rhisga | 14-Awst-07 |
| GLJ Recycling Ltd | 50,000 | 130,400 | Trecelyn | 04-Rhagfyr-07 |
| CYFANSWM | 1,518,120 | 4,704,327 | | |

Efallai nad yw'r tabl yn adlewyrchu newidiadau i ffiniau etholaeth ar ôl dyddiad gwreiddiol y cynnig.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

**Andrew R.T. Davies (Canol De Cymru):** Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o ddigwyddiadau lle mae ysgolion wedi rhwystro adwerthwyr lleol rhag gwerthu gwisgoedd ysgol mewn ymdrech i fonopoleiddio eu darparu? (WAQ52460)

**Y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (Jane Hutt):** Mae darpariaeth gwisg ysgol gan fanwerthwyr yn fater masnachol. Gall ysgolion drafod â masnachwyr lleol ynglŷn â gofynion gwisg ysgol.

Gwnaed adolygiad gan y Swyddfa Masnachu Teg (OFT) yn 2006 a chanfuwyd bod gwisgoedd ysgol yn costio mwy i ysgolion sy'n gofyn i rieni brynu gwisg ysgol gan fasnachwr penodol neu hyd yn oed yr ysgol ei hun. Yn dilyn ei hadolygiad, ysgrifennodd y Swyddfa Masnachu Teg at bob ysgol yng Nghymru a Lloegr yn eu hannog i roi'r gorau i gontractau gwisg ysgol cyfyngedig ac i sicrhau bod gwisgoedd ysgol ar gael yn hawdd mewn sawl siop.

Cefnogaf y farn hon. Yn unol â hynny, mae canllaw Llywodraeth y Cynulliad ynglŷn â gwisg ysgol yn cynnwys cyfeiriad Adolygiad y Swyddfa Masnachu Teg ac yn cynghori cyrff llywodraethu i roi blaenoriaeth uchel ar gostau gwisg ysgol. Mae'r canllaw yn cynghori ar sut i helpu i gadw costau'n isel. Disgwyliaf i gyrff llywodraethu gymryd camau i gyflawni hynny.

**Andrew R.T. Davies (Canol De Cymru):** A fyddai'r Gweinidog yn gwneud datganiad am swyddogaeth y Swyddog Iaith Sbaeneg, yr oedd y strategaeth 'Ieithoedd sy'n Cyfrif' yn sôn am ei benodi? (WAQ52461)

**Jane Hutt:** Drwy weithio gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru a CILT Cymru, y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Ieithoedd yng Nghymru, penododd Llywodraeth Sbaen swyddog yn 2003 i hyrwyddo cyfleoedd ehangach i bobl ifanc mewn ysgolion yng Nghymru i ddysgu Sbaeneg. Rhoddwyd dyletswydd ar y swyddog i ddatblygu a chyflwyno ystod o hyfforddiant ar gyfer athrawon i'w darparu mewn partneriaeth â CILT Cymru.

Ariennir a rheolir y swydd gan y Consejeria de Educacion a leolir yn Llysgenhadaeth Sbaen yn Llundain. Darparwyd y gwasanaeth rhwng 2003 a 2006 gan swyddog a leolwyd â CILT Cymru yng Nghaerdydd ac ers 2006 darperid yr un lefel o gymorth ar sail allgymorth gan swyddog dynodedig yn gweithredu o Lundain. Mae CILT Cymru wedi cadarnhau y croesewir y rhaglen o ddatblygiad proffesiynol a gyflwynwyd o dan y trefniant hwn gan ysgolion ac mae wedi bod yn allweddol i gynyddu nifer y bobl ifanc sy'n dewis dysgu Sbaeneg ar lefel TGAU a Safon Uwch.

Mae CILT Cymru yn parhau i weithio'n agos gyda'r Consejeria de Educacion i sicrhau y defnyddir y cymorth a ddarperir yn y ffordd orau yng Nghymru a'i fod yn cyd-fynd â'r rhaglenni ehangach o gymorth a hyfforddiant ar gyfer awdurdodau lleol ac ysgolion a ddarperir gan y Ganolfan.

**Andrew R.T. Davies (Canol De Cymru):** Faint o gyllid sydd wedi cael ei ddarparu ar gyfer Cynorthwywyr Ieithoedd Tramor yng Nghyfnod Allwedd 2 ar gyfer pob blwyddyn er 2003? (WAQ52462)

**Jane Hutt:** Comisiynodd Llywodraeth Cynulliad Cymru CILT Cymru, y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Ieithoedd yng Nghymru, i weithio gydag ysgolion cynradd i dreialu'r ddarpariaeth o ieithoedd tramor modern ym mlwyddyn olaf Cyfnod Allweddol 2 - dysgu ar gyfer plant 8-11 oed. Mae ysgolion cynradd wedi cael cymorth i ddatblygu nifer o ffyrdd o gyflwyno iaith dramor. Mae hyn yn cynnwys yr opsiwn o gyflogi cynorthwywr iaith dramor. Cafodd pob ysgol gynradd hyd at £2,000 fesul blwyddyn yng Nghyfnod 1 o'r cynllun peilot (2003-06) a £1,500 yng Nghyfnod 2 (2006-09) fel cyfraniad tuag at gostau. Felly darparwyd £210,000 i gyd ar gyfer ysgolion cynradd ym mhob un o'r tair blynedd gyntaf o'r cynllun peilot a darperir £175,500 yn flynyddol yng Nghyfnod 2.

Monitrwyd Cyfnod 2 gan CILT Cymru a bu'n destun gwerthusiad allanol. Roedd y gwerthusiad yn gadarnhaol iawn ac yn cofnodi fod y cynlluniau peilot wedi ehangu profiad a brwdfrydedd disgyblion am ieithoedd. Nododd hefyd allan o 105 o ysgolion cynradd a gymerodd ran yn y cynlluniau peilot fod yn

well gan y mwyafrif ddatblygu darpariaeth mewn partneriaeth ag ysgol uwchradd leol yn defnyddio athrawon ieithoedd a ddarperir gan yr ysgol uwchradd. Er i fodelau eraill gael eu defnyddio mewn nifer bach o ysgolion, ni ddewisodd dim un o'r ysgolion peilot gyflogi cynorthwyydd ieithoedd tramor fel rhan o waith Cyfnod 1.

Mae CILT Cymru wedi cadarnhau fod ysgolion cynradd wedi mabwysiadu dull tebyg yng Nghyfnod 2 ac eto wedi dewis peidio â gwneud defnydd o gynorthwywyr ieithoedd tramor.
I gefnogi'r datblygiad ehangach o gyfleoedd am ddysgu ieithoedd mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi sicrhau bod adnoddau ar gael yng Nghronfa Ysgolion Gwell ar gyfer 2008-09 i ysgolion cynradd yn gweithio mewn partneriaeth ag ysgolion uwchradd i gynnig ieithoedd tramor yng Nghyfnod Allweddol 2. Ysgolion yn gweithio gydag awdurdodau lleol fydd yn penderfynu a ydynt am ddefnyddio'r adnodd hwn i gyflogi cynorthwywyr iaith dramor. Mae cymorth am ddarpariaeth ieithoedd tramor yn dod o dan weithgaredd 1 o'r Gronfa Ysgolion Gwell. Mae cyfanswm o £13.1m wedi'i ddarparu i gefnogi'r gwaith a nodir yng Ngweithgaredd 1 yn 200

**Andrew R.T. Davies (Canol De Cymru):** Pa AALlau yng Nghymru nad oes ganddynt fynediad at gynghorydd ieithoedd tramor? (WAQ52463)

**Jane Hutt:** Mae'r penderfyniad i gyflogi ymgynghorydd i helpu ysgolion i gyflwyno ieithoedd tramor yn fater i'r awdurdodau lleol. Nid yw Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gofyn i awdurdodau roi gwybodaeth am gyflogi ymgynghorwyr o'r fath. Fodd bynnag, mewn ymateb i arolwg diweddar a gynhaliwyd gan Estyn, mae un ar ddeg o awdurdodau wedi cadarnhau eu bod ar hyn o bryd yn cyflogi ymgynghorydd ieithoedd tramor naill ai'n uniongyrchol neu ar sail rhannu ag awdurdodau cyfagos. Ni ddarparwyd gwybodaeth gan yr awdurdodau eraill ar sut maent yn cael cyngor ar addysgu a dysgu ieithoedd tramor.

Mae'n ofynnol i'r holl ysgolion uwchradd a gynhelir ddarparu ieithoedd tramor modern fel rhan o'r cwricwlwm i ddisgyblion oedran 11-14 oed yng Nghyfnod Allwedol 3. Dylid nodi yn ogystal â chyflogi ymgynghorydd fod awdurdodau lleol yn aml yn dewis prynu cymorth ar sail ad hoc fel y bo'r angen. Mae awdurdodau lleol hefyd yn gallu cael cyngor a chymorth arbenigol ar ddygsu ieithoedd gan CILT Cymru, y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Ieithoedd. Er enghraifft, drwy ei gynllun Cytundeb mae CILT Cymru ar hyn o bryd yn darparu rhaglen cymorth i nifer o awdurdodau lleol i adolygu a gwella darpariaeth ieithoedd tramor mewn ysgolion uwchradd.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sefydlu mecanwaith apelio arbennig yng Nghymru fel yr argymhellir yn Adolygiad David Jenkins? (WAQ52453)

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Edwina Hart):** Mae Fforwm Partneriaeth Cymru yn aros am gyngor gan y Ganolfan Cydraddoldeb a Hawliau Dynol o ganlyniad i drafodaethau â Chyngor Staff GIG y DU i asesu unrhyw oblygiadau polisi o ran cydraddoldeb o weithredu argymhellion adolygiad David Jenkins.

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru):** Pa strwythur neu grŵp sy'n bodoli i gynghori'r Gweinidog ynghylch rheoli heintiau yng Nghymru? (WAQ52471)

**Edwina Hart:** Mae Rhaglen Heintiau sy'n Gysylltiedig â Gofal Iechyd Cymru o'r Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol yn rhoi cyngor a gwybodaeth annibynnol a phroffesiynol am heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd i weithwyr iechyd proffesiynol yng Nghymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Mae hefyd nifer o grwpiau a arweinir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru neu sy'n gysylltiedig â ni yn rhoi gwybodaeth am reoli heintiau. Y rhain yw:

- Mae cynrychiolwyr Llywodraeth Cynulliad Cymru yn bresennol mewn nifer o fforymau'r DU, gan gynnwys y Pwyllgor Cynghori ar Ymwrthedd Gwrthficrobaidd a Heintiau sy'n Gysylltiedig â Gofal Iechyd a'r Grŵp Cynghori ar Hepatitis.
- Yn ogystal â hyn mae nifer o gymdeithasau proffesiynol yng Nghymru, yn benodol grŵp Cynghori Arbenigol Microbioleg a'r Gymdeithas Atal Heintiau a all hefyd roi cyngor i Lywodraeth Cynulliad Cymru ar reoli heintiau.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig

**Brynle Williams (Gogledd Cymru):** Pa waith y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'i wneud i ragweld effeithiau posibilrwydd ffermwyr yn gadael i dir fynd yn segur ar ddarparu ei pholisïau? (WAQ52454)

**Y Gweinidog dros Faterion Gwledig (Elin Jones):** Ers ei gyflwyno yn 2005 mae'n rhaid i bob un sy'n cael y Taliad Sengl gadw eu tir ffermio i gyd mewn Cyflwr Amaethyddol ac Amgylcheddol Da a chadw at Ofynion Rheoli Safonol. Bu hyn yn amod yn rhannol er mwyn osgoi tir wedi'i adael ac i ddiogelu'r amgylchedd ffermio. Nid yw gwaith monitro cydymffurfiaeth â'r cynllun gan Lywodraeth Cynulliad Cymru wedi nodi unrhyw broblem sylweddol o ran hynny a bydd yn parhau i weithio â rhanddeiliaid a'r diwydiant i sicrhau polisïau priodol.

**Brynle Williams (Gogledd Cymru):** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda swyddogion y Trysorlys ynghylch cyflwyno rhanddirymiad i eithrio cerbydau a ddefnyddir mewn amaethyddiaeth o'r cynnydd diweddar mewn treth cerbyd? (WAQ52455)

Elin Jones: Nid wyf wedi cael unrhyw drafodaeth â swyddogion y Trysorlys am gyflwyno rhanddirymiad gan fod cerbydau amaethyddol at ddibenion trethiant, wedi'u heithrio o Doll Ecseis ar Gerbydau ers 1 Ebrill 2001 am eu bod yn rhan o'r dosbarth 'Mantais Arbennig' yn y dosbarth trethiant 'Peiriant Amaethyddol'. Mae Deddf Ecseis Cerbyd a Chofrestru 1994 yn diffinio cerbydau sy'n rhan o'r dosbarth trethiant 'Peiriant Amaethyddol' fel a ganlyn:

1. Tractor Amaethyddol sef tractor a ddefnyddir ar ffyrdd cyhoeddus mewn perthynas ag amaethyddiaeth, garddwriaeth, coedwigaeth a gweithgareddau sy'n dod o dan y canlynol yn unig:
- Torri ymylon sy'n ffinio ar ffyrdd cyhoeddus;
- Torri gwrychoedd neu goed sy'n ffinio ar ffyrdd cyhoeddus neu ymylon sy'n ffinio ar ffyrdd cyhoeddus.

2. Tractor Tir Agored sef tractor nad yw'n dractor amaethyddol ac sydd:
- Wedi'i gynllunio a'i adeiladu'n bennaf ar gyfer defnydd oddi ar ffyrdd;
- Yn methu, oherwydd y rheswm dros ei adeiladu, â mynd yn gyflymach na 25 milltir yr awr ar dir gwatstad o dan ei bŵer ei hun.

3. Injan Amaethyddol sef peiriant wedi'i gynllunio'n arbennig/wedi'i droi'n barhaol i wneud gweithred amaethyddol ar y tir (e.e. dyrnwyr medi).

4. Cerbyd Amaethyddol Ysgafn sef cerbyd sydd:
- Â phwysau refeniw nad yw'n fwy na 1,000kg;
- Wedi'i gynllunio a'i adeiladu i roi lle i'r gyrrwr yn unig;
- Wedi'i gynllunio a'i adeiladu'n bennaf ar gyfer defnydd oddi ar ffyrdd yn unig;
- Sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion amaethyddiaeth, garddwriaeth coedwigaeth yn unig.

Mae’r cerbydau canlynol hefyd yn y dosbarth ‘Mantais Arbennig’:

- Peiriannau Torri Gwair
- Trydan
- Peiriannau Graeanu Ffyrdd
- Sychau Eira
- Cerbydau Stêm